***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 905

# Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 2004

## RHAN II

Sefydlu Cynghorau ac Aelodau Cynghorau

**Gweithdrefnau ar gyfer penodi aelodau**

**7.** Rhaid i'r cyrff sy'n penodi sicrhau bod trefniadau priodol wedi'u gwneud ar gyfer dewis a phenodi personau'n aelodau a bod y trefniadau hynny'n gymryd i ystyriaeth—

(a) yr egwyddorion a bennir o bryd i'w gilydd gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus(**1**) ac yn y Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus ac yng Nghad Ymarfer y Cynulliad(**2**);

(b) ei bod yn ofynnol bod dewis a phenodi aelodau'n brosesau agored a thryloyw; a

(c) lle y bo'n gymwys, ei bod yn ofynnol y dewisir ac y penodir aelodau trwy gystadleuaeth deg ac agored.

(**1**) Gellir cael copïau o'r ddogfen hon drwy ysgrifennu at Is-adran GIG (Adnoddau Dynol), Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

(**2**) Gellir cael copïau o'r ddogfen hon drwy ysgrifennu at Is-adran GIG (Adnoddau Dynol), Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.